# YR ATODLEN

## Manylion ychwanegol ynglŷn â rhai ceisiadau

## Ceisiadau a wneir o dan Ddeddf 1985

*Ceisiadau sy'n ymwneud â gorchmynion dymchwel*

**45.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan adran 269(1) o Ddeddf 1985(**1**) (apêl gan berson a dramgwyddwyd gan orchymyn dymchwel).

(2) Y dogfennau penodedig yw—

(a) copi o'r gorchymyn dymchwel a wnaed o dan adran 265 o Ddeddf 1985 (gan gynnwys unrhyw atodlen i'r gorchymyn); a

(b) y datganiad o resymau; ac

(c) os sail y cais, neu un o'i seiliau, yw mai un o'r ffyrdd o weithredu a grybwyllir yn adran 269A(2)(**2**) o Ddeddf 1985 yw'r ffordd orau o weithredu ynglŷn â'r perygl, datganiad yn nodi beth yw'r ffordd honno o weithredu, ynghyd â rhesymau'r ceisydd dros ystyried mai honno yw'r ffordd orau o weithredu.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r ATLl.

**46.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan adran 272(1) neu (2)(a) o Ddeddf 1985 (cais mewn cysylltiad ag adennill treuliau ATLl wrth gyflawni gorchymyn dymchwel o dan adran 271 o Ddeddf 1985 gan gynnwys penderfynu'r cyfraniadau gan gydberchnogion).

(2) Y dogfennau penodedig yw—

(a) copi o'r gorchymyn dymchwel a wnaed o dan adran 265 o Ddeddf 1985 (gan gynnwys unrhyw atodlen i'r gorchymyn);

(b) y datganiad o resymau; ac

(c) datganiad o'r canlynol—

(i) y treuliau a dynnwyd gan yr ATLl o dan adran 271 o Ddeddf 1985 (gweithredu gorchymyn dymchwel);

(ii) y swm (os oes un) a dderbyniwyd drwy werthu defnyddiau; a

(iii) y swm y mae'r ATLl yn ceisio'i adennill oddi wrth unrhyw berchennog y fangre.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw perchennog y fangre(**3**).

**47.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan adran 272(2)(b) o Ddeddf 1985 (cais gan un o berchnogion mangre am benderfynu'r cyfraniad i dreuliau ATLl, sydd i'w dalu gan berchennog arall).

(2) Y dogfennau penodedig yw—

(a) copi o'r gorchymyn dymchwel a wnaed o dan adran 265 o Ddeddf 1985 (gan gynnwys unrhyw atodlen i'r gorchymyn);

(b) y datganiad o resymau; ac

(c) datganiad o'r canlynol—

---

(**1**) Diwygiwyd adrannau 269, 272 a 317 o Ddeddf 1985 gan adran 48 o Ddeddf 2004.
(**2**) Mewnosodwyd adran 269A o Ddeddf 1985 gan baragraff 15 o Atodlen 15 i Ddeddf 2004.
(**3**) *Gweler* adran 322 o Ddeddf 1985, sy'n diffinio "owner" mewn perthynas â mangre. Diwygiwyd adran 322 gan adran 65(1) o Ddeddf 2004 a pharagraff 26 o Atodlen 15 i'r Ddeddf honno.

(i) priod fuddiannau'r perchnogion yn y fangre; a

(ii) eu priod rhwymedigaethau ac atebolrwyddau o ran cynnal ac atgyweirio, o dan unrhyw gyfamod neu gytundeb, penodol neu oblygedig.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r perchennog y mae'r ceisydd yn ceisio cyfraniad ganddo tuag at dreuliau'r ATLl.

**48.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan adran 317(1) o Ddeddf 1985 (cais gan lesydd neu lesddeiliad mangre y daeth gorchymyn dymchwel yn weithredol mewn perthynas â hi, am orchymyn yn amrywio neu'n terfynu les).

(2) Y dogfennau penodedig yw—

(a) copi o'r gorchymyn dymchwel a wnaed o dan adran 265 o Ddeddf 1985 (gan gynnwys unrhyw atodlen i'r gorchymyn);

(b) y datganiad o resymau;

(c) copi o'r les berthnasol; ac

(ch) datganiad o enw a chyfeiriad unrhyw barti arall i'r les, ac enw a chyfeiriad unrhyw barti i les isradd.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw'r parti arall i'r les.

*Ceisiadau sy'n ymwneud â gwaith ar fangreoedd anaddas*

**49.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan adran 318(1)(**4**) o Ddeddf 1985 (cais gan berson sydd â buddiant mewn mangre am awdurdodiad gan dribiwnlys i gyflawni gwaith ar fangre anaddas, neu waith ar gyfer gwella).

(2) Y dogfennau penodedig yw—

(a) manylion o'r gwaith y mae'r ceisydd yn bwriadu eu cyflawni, gan gynnwys—

(i) enwau a chyfeiriadau contractwyr arfaethedig pan fo'n berthnasol;

(ii) amcangyfrif o gostau'r gwaith; a

(iii) amserlen ar gyfer cychwyn a chwblhau'r gwaith;

(b) pan wneir y cais ar y sail a grybwyllir yn adran 318(1)(b) o Ddeddf 1985, manylion o'r canlynol—

(i) y cynllun gwella neu ailadeiladu y mae'r ceisydd yn dymuno'i gyflawni; a

(ii) y gymeradwyaeth o'r cynllun gan yr ATLl;

(c) datganiad o statws ariannol y ceisydd, gan gynnwys datgeliad o'r cyllid sydd ar gael i ddiwallu costau amcangyfrifedig y gwaith; ac

(ch) pan fo'r cais yn cynnwys cais am orchymyn yn terfynu les a ddelir oddi wrth y ceisydd neu les ddeilliannol, copi o'r les honno.

(3) Yr ymatebwyr penodedig yw—

(a) y person sydd â hawl i feddiannu'r fangre;

(b) perchennog y fangre(**5**).

(**4**) Diwygiwyd adran 318 o Ddeddf 1985 gan adran 48 o Ddeddf 2004.

(**5**) *Gweler* adran 322 o Ddeddf 1985, sy'n diffinio "owner" mewn perthynas â mangre.